

Seminar Cymraeg i Farnwyr, 4 Mawrth 2019

Cyflwyniad Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad i ymuno â chi heddiw ac am y cyfle i dynnu eich sylw at un o'r partneriaethau allweddol sydd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sef ein perthynas waith agos ag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM, ac yn arbennig i bwysleisio'n hymdrechion i sicrhau trefn a safon broffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (CAP) Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r triwilysoedd yng Nghymru.

Mae perthynas y Gymdeithas â'r Uned Iaith Gymraeg yn mynd yn ôl rhai blynyddoedd, a chaiff y berthynas honno ei chydabod yng Nghynllun Iaith Gymraeg cyfredol GLITEM a gyhoeddwyd yn 2018. Rydw i am ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi digwydd ers 2007 pan gafodd y Gymdeithas lythyr gan y Barnwr Eleri Rees, Barnwr Cyswllt y Gymraeg ar y pryd. Ynddo fe ysgrifennodd hi,

“Credaf fod penderfyniad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i gyflwyno trefn arholi ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd, rhyw ddwy flynedd yn ôl, wedi bod yn benderfyniad pwysig o ran sefydlu system o achrediad proffesiynol i gyfieithwyr ac i sicrhau cysondeb mewn safon. Yn dilyn hyn, penderfyniad eithaf hawdd oedd i ni fel gwasanaeth i newid ein polisi (o Ebrill 2008 ymlaen) i ddewis cyfieithwyr ar y pryd i gyfieithu mewn achosion llys oddi ar restr y Gymdeithas o'r rhai sydd wedi llwyddo yn ei harholiadau.”

Fe ofynnwyd i ni hefyd yn y llythyr hwnnw i gynnal Prawf CAP i'r Gymraeg at ddibenion cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd yn unig – dim ond i'r Saesneg y cynhelid Prawf CAP y Gymdeithas yr adeg honno a dim ond aelodaeth CAP i'r Saesneg oedd gan y Gymdeithas. Cynhaliwyd y Prawf CAP hwnnw yn 2009.

Erbyn hyn mae'r rhai a lwyddodd yn y Prawf CAP hwnnw yn cael eu harddel fel aelodau CAP i'r Gymraeg wrth i'r Gymdeithas yn 2017 mewn ymateb i ofynion Safonau'r Gymraeg, sefydlu ail gategori o aelodaeth CAP, sef un i'r Gymraeg. Fel yn achos aelodaeth CAP i'r Saesneg rhaid llwyddo ym Mhrawf CAP y Gymdeithas i'r Gymraeg i gael yr aelodaeth hon.

Roedd llythyr y Barnwr Eleri Rees yn gam pwysig ac arwyddocaol wrth sicrhau y câi ansawdd CAP yn y llysoedd ei ddiogelu, y byddai cysondeb yn safon y cyfieithu ar y pryd hwnnw gan y byddai'n seiliedig ar safonau uchaf y proffesiwn, ac y câi hawliau unigolion eu gwarchod.

Yn 2013, roeddem yn falch iawn o allu cyfrannu at yr adolygiad trylwyr, dan arweiniad Uned Iaith Gymraeg GLITEM, o'r trefniadau ar gyfer sicrhau gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd Cymraeg/Saesneg ar gyfer achosion llys a thriwilysoedd lle'r oedd gofyniad ieithyddol Cymraeg wedi'i nodi. O ganlyniad, sefydlwyd gweithdrefn newydd a roddai gyfarwyddyd clir i'r llysoedd a'r triwilysoedd ynghylch llogi gwasanaeth cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg cymwys a oedd yn gorfod bod yn aelodau CAP o'r Gymdeithas. Canlyniad arall yr adolygiad oedd sicrhau fod cyfieithwyr ar y pryd yn cael yr holl wybodaeth berthnasol am yr achos ymlaen llaw, rhywbeth sy'n hanfodol bwysig wrth ddarparu gwasanaeth effeithiol a phroffesiynol.

Roedd yr adolygiad hwn yn enghraifft wych o'r ddau broffesiwn yn gweithio ar y cyd, cydweithio a arweiniodd at y sylfaeni cadarn a sefydlog sy'n bodoli ar gyfer darparu gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg o ansawdd yn llysoedd a thriwilysoedd Cymru.

Ymlaen â ni, felly, i 2015, ac at fwriad y Gymdeithas i sefydlu trefn ar gyfer cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol (MAP) ein haelodau Cyflawn a CAP.

Roedd dewis y maes arbenigedd cyntaf yn un eithaf rhwydd: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Wrth ddewis y maes arbenigedd hwn, gwelem gyfle i gryfhau rhagor ar swyddogaeth bwysig CAP yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, yn ogystal â'r holl drefniadau a fu mewn grym ers mis Ebrill 2008. Roedd hefyd yn gyfle i gryfhau statws cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg proffesiynol yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd rhoi bri ar y grefft a'r alwedigaeth.

Wrth fynd ati i lunio'r MAP hwn, y prif faen prawf wrth roi'r gydnabyddiaeth i'r cyfieithwyr cyntaf oedd eu profiad wrth gyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Fe wnaed hyn ar sail cofnodion Uned Iaith Gymraeg GLITEM a thystiolaeth cyfieithwyr eu hunain.

Fel rhan o'r trefniadau hyn bwriadwn drefnu seminar pob dwy flynedd i gyfieithwyr ar y pryd a gweithwyr llys a fydd yn gyfle i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredinol fel y gall y ddwy ochr gael deall anghenion y naill a'r llall yn well. Fel rhan o'u hymrwymiad i ddatblygu proffesiynol parhaus, disgwylir i'r cyfieithwyr ar y pryd hyn fod yn gyfarwydd â datblygiadau yn y maes.

Ac er mwyn ychwanegu at y nifer o gyfieithwyr ar y pryd cydnabyddedig all weithio yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, byddwn yn mynd ati, yn ôl yr angen, i drefnu cyflwyniad priodol i waith a gweithdrefnau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd i gyfieithwyr sydd heb brofiad o hyn. Cafwyd diwrnod o hyfforddiant llwyddiannus yn Llys y Goron yng Nghaernarfon ddiwedd mis Mawrth 2018 dan arweiniad y Barnwr Rhanbarth Hywel James.

Felly, ym mha gyfeiriad bynnag y mae angen darparu gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru, caiff hynny ei wneud gan aelod CAP o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru sy'n meddu ar y gydnabyddiaeth MAP: CAP yn y llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Yn yr un modd ag y mae cynnal achos trwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil, felly hefyd mae darparu gwasanaeth CAP o safon yn sgil. Hyd yn hyn mae 24 o'n haelodau CAP wedi cael y gydnabyddiaeth hon, cydnabyddiaeth a gaiff ei chynnwys yng Nghofnod Aelodaeth yr aelodau hyn ar wefan y Gymdeithas.

Mae datblygu MAP: CAP yn y llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r neges glir a diamheuol a gafwyd gan y Barnwr Eleri Rees yn 2007. Bydd yn cryfhau byrdwn ei llythyr fod y safonau proffesiynol a arddelir ac a hybir gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn bwysig yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru. Bydd yn rhoi sicrwydd i bob un sy'n rhan uniongyrchol o'r drefn o weinyddu cyfiawnder, a'r cyhoedd yn gyffredinol, fod cyfieithwyr ar y pryd cymwys ar gael i wneud y gwaith a bod y rhain yn bobol broffesiynol y gellir ymddiried ynddyn nhw.

Ac mae hon yn neges eithriadol o bwysig na ddylem na'i anghofio na'i diystyru. Mae gennym drefniadau cadarn a chwbl broffesiynol ar gyfer darparu gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru ac mae angen gwarchod ac amddiffyn y trefniadau hynny rhag unrhyw fygythiadau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llundain.

Ers 2012 mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn caffael gwasanaeth CAP yn y llysoedd trwy gytundeb allanol ag un cwmni sy'n gyfrifol yn ei dro am logi gwasanaeth gan gyfieithwyr ar y pryd allanol. O'r dechrau bu, ac y mae, cryn anfodlonrwydd

ynghylch y drefn hon ymhlith cyfieithwyr ar y pryd a'r cymdeithasau ac undebau sy'n cynrychioli cyfieithwyr.

O ganlyniad ffurfiwyd Professional Interpreters for Justice (PI4J), grwp ambarél o gynrychiolwyr o blith y prif gymdeithasau cyfieithu a'r undebau. Mae'r Gymdeithas yn un o aelodau'r grŵp. Amcan PI4J yw hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf a sicrhau gwasanaeth cyfieithu cynaliadwy yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Gymdeithas yn gadarn o'r farn na ddylai'r drefn gadarn a sefydlwyd ar gyfer y CAP Cymraeg/Saesneg yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru gael ei llyncu'n rhan o gytundeb enfawr y mae cannoedd o gyfieithwyr ar y pryd mewn ieithoedd eraill wedi ymwrthod â hi a phenderfynu peidio â gweithio yn y llysoedd, trefn sydd wedi pery i lawer o'r rhain gefnu ar y proffesiwn yn gyfan gwbl.

A hyd y gwelaf i, dyw'r bygythiad i'r drefn yr ydym wedi gweithio mor galed i'w sefydlu heb ddiflannu. Wrth i'r esgid ariannol barhau i wasgu, fe allai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fynnu bod holl drefniadau cyfieithu ar y pryd yn llysoedd Cymru a Lloegr ym mhob iaith ddod o dan yr un cytundeb. Canlyniad anochel hynny, mi greda i, fyddai gostwng safonau, gohirio achosion, cynyddu costau, ac israddio statws y Gymraeg.

Wrth gloi, gaf i bwysleisio mai nod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw gwneud yn siŵr y bydd y gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg a geir yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru yn parhau i fod yn un o safon broffesiynol uchel ac yn un y gellir ymfalchïo ac ymddiried ynddi. Ac wrth wneud hynny, fe fyddwn ni'n parhau i gydweithio'n agos ag Uned Iaith Gymraeg GLITEM i warchod hyn a datblygu'r drefn sydd gennym.

Rwy'n gwybod eich bod chi fel Barnwyr yn cydnabod pa mor ddibynadwy a chywir yw'r gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg, yn gwerthfawrogi ei fod yn wasanaeth o'r radd flaenaf, ac yn uchel iawn eich parch o'r cyfieithwyr ar y pryd hynny sy'n hwyluso'ch gwaith chi wrth wrando ar achosion Cymraeg. Mae angen i ni i gyd barhau i fod yn eiriol dros y drefn hon ar gyfer cyfieithu ar y pryd, parhau i genhadu drosti, parhau i wneud yn siŵr ei bod hi'n un cadarn, ac yn anad dim ei gwarchod hi oherwydd ei bod hi'n drefn effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian ac yn bwysig iawn, mae'n drefn y mae ymddiriedaeth lwyf ynddi hi.